Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Gynradd Talyllychau**
**Talyllychau**
**Llandeilo**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA19 7YH**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Eifion Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Talyllychau wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Hydref 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sicrhau mwy o gynnydd mewn gwaith ysgrifenedig yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn gyffredinol, mae safonau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg disgyblion yn dda.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn llunio darnau i wahanol bwrpasau sy'n cynnwys dilyniant o frawddegau ac yn gwneud defnydd da o atalnodi sylfaenol. Maent yn strwythuro darnau ysgrifenedig yn effeithiol, ac yn gwybod beth sydd ei angen i sicrhau dilyniant mewn stori.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith ac i wahanol bwrpasau. Maent yn ysgrifennu'n drefnus ac yn y cywair priodol mewn storïau, darnau ffeithiol a darnau dwyn perswâd yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn drafftio eu gwaith ysgrifenedig yn dda. Mae'r ysgol wedi rhoi sylw penodol i wella safon llawysgrifen ac, o ganlyniad, mae cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn daclus, ac yn dangos ôl gofal.

Mae athrawon yn gosod targedau clir a phriodol ar gyfer datblygu gwaith ysgrifennu yn y ddwy iaith ac mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd y targedau sydd wedi gosod ar eu cyfer.

### Argymhelliad 2: Gwella'r ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion er mwyn rhoi arweiniad penodol ar sut i wella eu gwaith

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae ansawdd marcio athrawon yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn rheolaidd ac mae eu sylwadau adeiladol yn nodi'r hyn sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella ansawdd a chywirdeb y gwaith yn llwyddiannus. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r symbolau marcio sy'n cael eu defnyddio gan athrawon. Mae athrawon yn cyflwyno bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau ysgrifennu yn glir. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn rôl bendant yn y broses o osod meini prawf llwyddiant ar gyfer mwyafrif o'r tasgau. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yn glir disgwyliadau'r athrawon a sut i lwyddo yn y tasgau.

Mae gan bob disgybl dargedau unigol, priodol ac mae llawer o ddisgyblion yn gosod eu targedau eu hunain.  Mae gan y disgyblion hynaf yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth glir o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ymateb i'w sylwadau ysgrifenedig ynghylch sut y gallant wella'u gwaith.  Mae llawer o'r disgyblion yn ymateb yn fedrus ac yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu i'w cynorthwyo i asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 3:  Sicrhau fod yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys yng nghyfnod allweddol 2**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol yn defnyddio pecyn masnachol fel sail i'w cynllunio tymor hir a chanolig.  Cafodd hwn ei fapio'n effeithiol i ofynion y cwricwlwm cenedlaethol, y fframwaith llythrennedd a rhifedd a disgwyliadau addysg grefyddol.  O ganlyniad, mae'r ysgol wedi sicrhau bod y cwriwcwlm yn gytbwys ac eang, ac yn diwallu anghenion y disgyblion yn llwyddiannus.  Mae'r cynlluniau yn sicrhau datblygiad cydlynus o fedrau llythrennedd a rhifedd, a TGCh ar draws y cwricwlwm.  O ganlyniad, mae gweithgareddau yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig profiadau dysgu amrywiol sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Mae'r cynllunio tymor byr yn sicrhau bod y gweithgareddau dysgu yn ateb anghenion penodol y disgyblion.  Mae athrawon yn arfarnu llwyddiant y gweithgareddau ac ansawdd eu haddysgu eu hunain yn effeithiol ar ddiwedd pob uned o waith er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n dylanwadu'n briodol ar y cynllunio dilynol.

Mae'r ysgol a'r awdurdod lleol yn monitro'r ddarpariaeth a'r profiadau dysgu yn rheolaidd, gan dalu sylw da i nifer o agweddau, gan gynnwys effeithiolrwydd yr addysgu a'r asesu.  Mae gweithdrefnau cynaliadwy effeithiol yn eu lle i fynd i'r afael â'r gwaith hwn.  O ganlyniad, mae'r adroddiadau monitro'n rhoi sylw da i gryfderau ac i feysydd sydd angen eu gwella, gan gynnwys awgrymiadau posibl ar gyfer eu cynnwys fel blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

**Argymhelliad 4:  Defnyddio asesiadau yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol i dracio cyflawniad a chynnydd disgyblion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan yr ysgol broffiliau disgybl a phortffolios ysgol a chlwstwr defnyddiol ar gyfer amrywiaeth o waith ysgrifenedig Cymraeg a Saesneg, sy'n cynnig modelau da ar gyfer athrawon a disgyblion.  Mae hyn, a'r broses gymedroli fesul clwstwr a hyfforddiant gan yr awdurdod lleol, wedi galluogi'r athrawon i lefelu gwaith yn fwy effeithiol.

Mae gwella effeithiolrwydd athrawon wrth asesu a thracio cynnydd wedi ei blethu'n agos â'r drefn rheoli perfformiad.  O ganlyniad, mae hyder a dealltwriaeth athrawon o asesu, a'u gwybodaeth am gynnydd disgyblion wedi dangos cynnydd da iawn.

Mae gan yr ysgol system dracio electronig sy'n galluogi'r ysgol i adnabod cyrhaeddiad unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn dda. Mae hyn yn cynnwys bechgyn a merched, disgyblion sy'n deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol a phlant mewn gofal. Erbyn hyn, mae'r drefn hon wedi gwreiddio'n gadarn ac wedi datblygu'n rhan ganolog o ddarpariaeth yr ysgol, er enghraifft wrth osod targedau cynnydd ar gyfer y disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llwyddiannus ohoni i sicrhau bod ymyrraeth addas i dargedu tangyflawniad, ac i rannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng staff yr ysgol a gyda rhieni.

**Argymhelliad 5: Cryfhau'r gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol er mwyn sicrhau ffocws ar godi safonau**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau priodol er mwyn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau cyson â'r ysgol, craffu ar lyfrau disgyblion ac arsylwi gwersi. Yn sgil hyn, mae'r corff llywodraethol yn datblygu'n dda yn ei allu i gynnig her briodol i'r pennaeth, wrth ystyried ansawdd y dysgu a'r addysgu.

O ganlyniad i hyfforddiant gwerthfawr, mae gallu'r corff llywodraethol i gyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol yn datblygu'n llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn cyflwyno gwybodaeth ar ddata cyrhaeddiad y disgyblion i'r llywodraethwyr yn fedrus. Mae gallu'r llywodraethwyr i herio'r ysgol mewn perthynas ag agweddau ar danberfformiad, yn enwedig o gymharu ag ysgolion tebyg, yn datblygu'n briodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Mae systemau'r ysgol yn drylwyr ac yn cynnwys mewnbwn gan holl randdeiliaid yr ysgol. Mae arfarniadau'r ysgol yn canolbwyntio ar y camau a gymerwyd a'u heffaith ar y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae gweithdrefnau arweinyddiaeth yr ysgol yn canolbwyntio ar godi safonau. Mae arweinwyr yn dadansoddi deilliannau yn fanwl er mwyn llunio strategaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod y llywodraethwyr yn gyfarwydd ag adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig trosolwg beirniadol ac yn bwydo blaenoriaethau gwella'r ysgol yn effeithiol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys targedau addas ar gyfer pob blaenoriaeth, sydd yn fesuradwy ac yn cynnwys ystyriaethau ariannol manwl ac amseroedd adolygu penodol. O ganlyniad, mae rôl y llywodraethwyr o ran adolygu cynnydd yn erbyn y targedau yn datblygu'n effeithiol.

Nid yw'r trefniant presennol o rannu pennaeth gydag ysgol arall wedi'i gadarnhau a'i ffurfioli. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth yr ysgol yn ansefydlog.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.